

CANOLBWYNTIO AR LASWELLT ORGANIG – MEDI 2007

| | |
|-----|---|
| C.1 | <p>'Rwyf am newid i system organig eleni ac rwyf wedi clywed llawer am sicori – ddylwn i ei dyfu?</p> |
| | <p>Ateb: Mae sicori yn gnwd protein uchel gyda phrifwraidd dwfn a chynnwys mwynol da. Mae'n ddelfrydol i besgi wŷyn, neu fel rhan o'r glastir. Er hynny, nid codlys yw sicori ac nid yw'n ychwanegu nitrogen fel meillion coch a gwyn. Nid yw ychwaith yn silweirio'n hawdd ac mae angen ei reoli'n ofalus i gadw ei dyfiant ar ei anterth i dda byw ei bori. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, wrth newid i system organig, rhaid rhoi blaenoriaeth i dir glas gan ddatblygu gwyndynnydd o ansawdd da, wedi eu seilio ar feillion, fydd yn allweddol i'r system organig weithio'n effeithiol. Dylid archwilio'r tir glas yn ofalus i weld faint o feillion sydd ynddo ac ar iechyd y meillion - mae meillion gwyn yn dibynnu ar rwydwaith dda o stolon sydd ychydig uwchben wyneb y pridd. Mae angen i'r stolon yma fod yn sylweddol ac yn drwchus i gefnogi tyfiant meillion da drwy'r flwyddyn, ac yn enwedig yn nechrau'r gwanwyn - amser pan fo rhai sy'n newydd i'r system organig yn dueddol o golli'r bag N! Mae meillion coch yn blanhigyn gwahanol iawn ac yn dibynnu ar y pwynt tyfu, y corun, i oroesi. Felly, bydd gofalu am hyn yn osgoi gorbori gan ddefaid neu sathru gan wartheg, a sicrhau sawl blwyddyn o gynnyrch ansawdd uchel o wyndynnydd meillion coch.</p> |
| C.2 | <p>Ydy hi'n rhy hwyr i ail-hadu efo glaswellt a meillion yn awr?</p> |
| | <p>Ateb: Ydy. Os ydych yn ail-hadu yn awr mae perygl na fydd yn cydio'n dda, yn enwedig y meillion sy'n y gymysgfa. I feillion ddatblygu'n dda mae'n hanfodol iddynt oroesi'r gaeaf a rhoi tyfiant cynnar yn y gwanwyn. Mae hadau yn ddrud a gall y gwaith o drin y tir fod yn ddrud, felly dylech gynllunio yn awr ar gyfer ailhadu yn y gwanwyn gan wneud yn sicr fod indecsau'r pridd yn briodol (pH 6; P a K, 2). Mae hefyd yn rhoi cyfle i wahanu gwaith chwalu calch a P neu K os oes eu hangen i'r gwyndwn. Dylech ystyried opsiwn tymor byr fel Rhygwellt Eidalaid neu Westerworlds os oes angen porthiant sy'n tyfu'n gyflym ar gyfer y gaeaf, y gwanwyn, neu fel gorchudd i'r ddaear i amddiffyn y pridd.</p> |
| C.3 | <p>'Rwyf yn carthu'r sied wartheg – ble ddylwn i roi'r tail?</p> |
| | <p>Ateb: Er bod y tail wedi ei adael yn y sied ers y gaeaf diwethaf mae'n annhebygol o fod yn friwsionllyd ac wedi troi'n gompost i gyd, oni bai ei fod wedi ei droi o leiaf ddwywaith yn ystod y cyfnod yma. Y prif faetholion fydd P a K gyda swm cyfyngedig o nitrogen yn unig. Edrychwch beth yw indecsau'r pridd i benderfynu ble mae fwyaf o angen P a K. Yn fras, bydd Tail Buarth ffres gyda 25t/ha (10t/erw) yn rhoi tua 15kg N, 50kg P a 180kg K/ha (12, 40, 144 uned/erw). Cofiwch, os oes llawer o wellt yn y tail gall y broses ymddatod yn y pridd gloi'r nitrogen sydd yn y pridd a'r tail, gan ostwng yr hyn sydd ar gael i'r cnwd sy'n tyfu.</p> <p><u>Mae sawl opsiwn:</u></p> <p>Os ydych am ei gadw am fwy o amser a'i wneud yn gompost - sicrhewch ei fod yn cael ei gadw yn ddigon pell o unrhyw gwrs dŵr ac os yw ar y buarth bod lle effeithiol i ddal unrhyw elifiant. Os yw mewn cae, dylech osgoi tir sy'n gynefin i fywyd gwyllt a mannau a ddefnyddiwyd i'w gadw mewn blynnyddoedd blaenorol. Dylid cadw'r domen mewn siâp rhenciau i annog unrhyw hylif i redeg i fwrdd, neu ei gorchuddio os yw hyn yn ymarferol. Dylid ei ddefnyddio yn gyntaf i'w chwalu ar adlodd silwair neu gnydau â'r i adnewyddu'r maethynnau a dynnwyd gyda'r cnydau. Dylech osgoi ei chwalu ar diroedd pori yn ystod yr wythnosau nesaf gan y bydd yn lleihau'r hyn all da byw ei fwyta ac mae'n berygl i iechyd anifeiliaid.</p> <p>Os ydych yn ei chwalu ar dir â'r, ceisiwch ei ymgorffori cyn pen 6 awr o'i chwalu i uchafu'r defnydd nitrogen. Dylid osgoi defnyddio deunydd gyda lefel uchel o wellt ynddo o dan gnydau a heuir yn yr hydref oherwydd problemau cloi nitrogen.</p> |

| | |
|------------|--|
| C.4 | <p>Mae fy nglaswellt yn troi'n oren – beth fedrai wneud am hyn?</p> <p>Ateb: Mae cyfuniad o dymheredd cynnes a gwlith trwm wedi creu'r amodau perffaith i'r corunrwd, afiechyd ffwngaid, ddatblygu mewn glastir ar draws Cymru. Yn draddodiadol, bu hwn yn fwy o broblem yn Ne Lloegr ond eleni gwelwyd achosion ohono o Fôn i Gasgwent.</p> <p>Mae'r sborau rhwd oren ar y corun yn gwneud niwed tymor hir i'r glaswellt yn unig mewn achosion drwg - ond mae'n effeithio ar ba mor flasus yw'r glaswellt i dda byw.</p> <p>Mae dau brif beth y gallwch eu gwneud i leihau effaith corunrwd: sef gwneud yn siŵr fod gan y tir glas ddigon o faethynnau i'w helpu i ymladd yr 'ymwelydd' digroeso. 1.- Gall chwalu swm bychan o nitrogen (20-30kg nitrogen/ha) helpu hyn, neu 2.- Torrwch neu frigidorri'r glaswellt i gael gwared â'r cyflenwad bwyd i'r ffwng. Dylai'r ail-dyfiant yn ystod yr wythnosau nesaf fod yn well. Os oes digon o laswellt i'w wneud yn silwair, sicrhewch fod y glaswellt wedi gwywo'n dda a defnyddiwch ychwanegyn gan y gall lefelau siwgr isel yn y glaswellt a'r posibilrwydd o facteria annymunol olygu eplesu gwael. Dylid mynd ati i wneud y ddau opsiwn yma mor fuan â phosib, er sicrhau nad yw'r corunrwd yn achosi niwed tymor hir.</p> <p>Ar gyfer strategaeth tymor hir dylid talu sylw i'r dewis o fathau o wair a heuir. Mae amrywiaeth sylweddol o ran gwyndwch i'r corunrwd gan y gwahanol fathau o rygwellt. Mae rhaglen fridio IGER wedi cynhyrchu cyfres o rygwelltoedd 'Aber' sydd â sgôr da iawn o ran gwrthsefyll corunrwd (7 neu 8 ar raddfa o 1-9 gyda 9 yn wrthsafiad da).</p> |
| C.5 | <p>Mae fy nghnwd porthiant rêp wedi ei hau dan gnwd – nid wyf eisiau ei bori ar hyn o bryd – fydd hyn yn niweidio'r gwyndwn?</p> |
| | <p>Ateb: Mae tyfwyr yn poeni fod amser pesgi eu hŵyn ar gnydau porthiant wedi ei amharu oherwydd cyfyngiadau presennol clwy'r traed a'r genau ar symudiadau a marchnadoedd, ond y flaenoriaeth yw'r gwyndwn glaswellt. Bydd cnwd rêp trwm yn lleihau gallu'r eginblanhigion i gydio yn enwedig meillion, os yw'r pori yn cael ei oedi. Os yw'r rêp yn cael ei bori yn awr bydd tymheredd y pridd yn ddigon uchel i ganiatáu'r gwyndwn i dyfu ymlaen ac i fynd yn fwy trwchus. Drwy aros ychydig o wythnosau mae perygl mawr y bydd y priddoedd yn oerach ac yn wlypach gan achosi ailhadu gwael, main fydd yn dirywio dros y gaeaf. Dylid trin y rêp fel bonws o ran ansawdd a faint o ddeunydd sych sy'n cael ei gymryd - nid fel cnwd swmpus. Dylid ei bori pan fydd yn ddim mwy na 12 modfedd i amddiffyn y gwyndwn.</p> <p>Os yw'r tan-gnwd yn rhygwellt Eidalaid, yna mae'n bosib y gallwch oedi'r pori gan fod y glaswellt yn llawer mwy ymosodol, ond mae angen defnyddio'r cnwd o hyd ar yr amser iawn i uchafu manteision y cynnyrch, egni a'r protein mae'n ei roi. Bydd blasusrwydd ac ansawdd y porthiant yn cael eu colli os yw'r pori yn cael ei oedi yn rhy hir.</p> <p>Os ydych eisiau cnwd trwm i besgi llawer o ŵyn peidiwch â'i dan hau!</p> |

**Os oes gennych gwestiwn am Laswellt Organig i CDTG –
Ffoniwch: 01970 823058**

neu anfon Epost at: heather.mccalman@bbsrc.ac.uk, / chris.duller@bbsrc.ac.uk, /
charlie.morgan@bbsrc.ac.uk, / huw.powell@bbsrc.ac.uk